



---

## Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

---

Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth i Ymdrin ag  
Achosion o Gam-drin Domestig er mwyn Diogelu  
Oedolion ag Anghenion Gofal a Chymorth

Dyddiad	Fersiwn	Cymeradwyo
08/11/2021	V2	Grŵp Polisi a Gweithdrefnau 31/01/2022
		I'w adolygu: 31/01/2025

## Cynnwys

## TUDALEN

1.0	Rhagarweiniad	3
2.0	Diben	4
3.0	Amcanion	5
4.0	Effeithiau cam-drin domestig ar oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth	6
5.0	Cyfrifoldebau'r Heddlu	6
6.0	Awdurdodau Lleol	11

### **Atodiad 1:**

Manylion cyswllt ac atgyfeirio	16
--------------------------------	----

## 1.0 RHAGARWEINIAD

Mae'r ddogfen hon yn cynnig canllawiau ychwanegol er mwyn cynorthwyo Heddlu Gogledd Cymru, yr awdurdodau lleol a, lle y bo'n briodol, gwasanaethau iechyd i weithio gyda'i gilydd er mwyn ymdrin â materion Cam-drin Domestig os ydyn nhw'n effeithio ar oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth.

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 dylid cyfeirio pryderon diogelu at adrannau gofal cymdeithasol yr awdurdod lleol gan mai nhw sy'n gyfrifol am gytuno bod angen gweithredu Dyletswydd adran 126 i gynnal ymholiadau. Os oes angen ymholiadau adran 126, gall yr awdurdod lleol gynnal yr ymholiadau neu ofyn i asiantaeth/gwasanaeth arall mwy priodol gynnal yr ymholiadau ar eu rhan. E.e. os oes trosedd wedi ei chyflawni, neu'n ymddangos fel pe bai wedi ei chyflawni, bydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad troseddol, gall asiantaethau/gwasanaethau eraill gyfrannu at y broses er mwyn sicrhau bod dyletswyddau adran 126 yn cael eu cyflawni.

Mae egwyddor ymholiad diogel yn greiddiol i'r holl waith gyda dioddefwyr trais/cam-drin domestig. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ystyried y safbwyntiau a fynegir gan y dioddefwr os credir ei fod ef/hi yn llunio penderfyniad galluog ac nad yw'n teimlo o dan orfodaeth. Gallai hyn arwain at beidio â rhoi caniatâd i rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill; yn yr amgylchiadau hyn dylid ymgynghori â'r Heddlu yn unig am y sefyllfa er mwyn hysbysu asesiad risg yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig os credir bod trosedd wedi ei chyflawni pan adroddir am y pryder.

Yr Oedolyn sydd mewn perygl: Mae dyletswyddau diogelu'n berthnasol i oedolyn sydd: ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu rhai o'r anghenion hynny neu beidio) ac; ei fod yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu diogelu ei hun naill ai rhag y perygl neu rhag y profiad o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.

(Canllawiau Gweithio gyda'n gilydd i Ddiogelu Pobl a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014): [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion sy'n Wynebu Risg](#)

### **Pwy a allai gael eu hystyried ar gyfer ymholiadau statudol ac anstatudol?**

Gall hyn gynnwys pobl ag anableddau dysgu, anawsterau iechyd meddwl, pobl hŷn, a phobl ag anabledd neu nam corfforol. Gall hefyd gynnwys oedolion sy'n dioddef camdriniaeth mewn arferion gofal; esgeulustod a hunan-esgeulustod; cam-drin domestig; trosedd casineb; anffurfio organau cenhedlu benywod; priodas dan orfod; caethwasiaeth fodern; masnachu mewn pobl ac ymddygiad o gamdriniaeth wrthgymdeithasol. Gall hefyd gynnwys unigolyn a all fod yn fregus o ganlyniad i'w rôl fel gofalwr mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

Gall oedolyn fod angen mwy o gymorth ychwanegol i ddiogelu ei hun pan fydd yn

cael ei gymhlethu gan ffactorau ychwanegol, er enghraifft gwendid corfforol neu salwch cronig, nam ar y synhwyrâu, ymddygiad heriol, problemau cyffuriau neu alcohol, problemau cymdeithasol neu emosiynol, tloedi neu ddigartrefedd ac mae'n bwysig nodi y gall y lefelau o fod yn agored i niwed amrywio.

### **Deddf Cam-drin Domestig 2021: diffiniad newydd**

#### **Diffiniad o "gam-drin domestig"**

(1) Mae'r adran hon yn diffinio "cam-drin domestig" at ddibenion y Ddeddf hon.

(2) Mae ymddygiad person ("A") tuag at berson arall ("B") yn "gam-drin domestig" os –

- (a) yw A a B yn 16 oed neu'n hŷn ac â chysylltiad personol â'i gilydd, a
- (b) bod yr ymddygiad yn gamdriniol.

(3) Mae'r ymddygiad yn "gamdriniol" os yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol -

- (a) camdriniaeth gorfforol neu rywiol;
- (b) ymddygiad bygythiol neu dreisgar;
- (c) ymddygiad llywodraethol neu ymddygiad gorfodaethol;
- (ch) camdriniaeth economaidd (gweler is-adran (4));
- (d) camdriniaeth seicolegol, emosiynol neu gamdriniaeth arall;

ac nid oes ots a yw'r ymddygiad yn cynnwys un digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau.

(4) Mae "camdriniaeth economaidd" yn golygu unrhyw ymddygiad sy'n cael effaith niweidiol sylweddol ar allu B i -

- (a) gaffael, defnyddio neu gynnal arian neu eiddo arall, neu
- (b) gael nwyddau neu wasanaethau.

(5) At ddibenion y Ddeddf hon, gall ymddygiad A fod yn ymddygiad "tuag at" B er ei fod yn cynnwys ymddygiad wedi'i gyfeirio at berson arall (er enghraifft, plentyn B)."

#### **Ymddygiad llywodraethol**

Mae ymddygiad llywodraethol yn ystod o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud person yn israddol a/neu yn ddibynnol drwy ei ynysu o ffynonellau cymorth, manteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd ar gyfer elw personol, ei amddifadu o'r dulliau

sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

## **Ymddygiad gorfodaethol**

Mae ymddygiad gorfodaethol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, cywilyddio a chodi ofn neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei defnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr.

Mae'n bwysig cofio hefyd fod y rhan fwyaf o waith ymchwil yn awgrymu bod cam-drin domestig yn digwydd ym mhob rhan o gymdeithas, waeth beth fo'r hil, diwylliant, cenedligrwydd, crefydd, rhywioldeb, anabledd, oedran, dosbarth neu lefel addysg.

Mae'r diffiniad yn cynnwys achosion lle bydd aelodau o'r teulu estynedig yn esgusodi neu'n cymryd rhan yn y patrwm o gam-drin e.e. priodas dan orfod, anffurfio organau cenedlu benywod a throseddau a resymir fel ffordd i gosbi merched am ddwyn 'amharch' ar y teulu.

Fe wnaeth Adran 76 Deddf Troseddau Difrifol (2015) greu trosedd newydd sef ymddygiad llywodraethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu berthynas deuluol. Daeth y ddeddfwriaeth, nad oes ganddi effaith ôl-weithredol, i rym ar 29 Rhagfyr 2015. Nid yw ymddygiad llywodraethol neu orfodaethol yn ymwneud â digwyddiad unigol, mae'n batrwm bwriadol o ddigwyddiadau sy'n digwydd dros gyfnod er mwyn i un unigolyn allu gweithredu pŵer, rheolaeth neu orfodaeth dros unigolyn arall. Nod y ddeddfwriaeth yw cau bwlch yn y gyfraith o ran patrymau o ymddygiad llywodraethol neu orfodaethol a geir mewn perthynas rhwng partneriaid agos, cyn bartneriaid sy'n dal i fyw gyda'i gilydd, neu aelodau o'r teulu.

## **2.0 DIBEN**

Nod y canllawiau ymarfer hyn yw nodi arferion cydweithio effeithiol ar gyfer pob asiantaeth pan fydd Cam-drin Domestig yn effeithio ar oedolyn mewn perygl.

Nod y canllawiau ymarfer hyn yw amlinellu'r safon gwasanaeth gofynnol pan fydd oedolyn mewn perygl angen cymorth i'w ddiogelu rhag Cam-drin Domestig ac i ganfod rhwydweithiau cefnogi priodol.

## **3.0 AMCANION**

### **Amcanion y canllawiau ymarfer hyn yw:**

- a) Darparu arweiniad i'r holl asiantaethau wrth gyfeirio achosion o bryder at y gwasanaethau priodol (gweler adran 1.2). Dylid cyfeirio at weithdrefnau Diogelu Cymru.
- b) Darparu arweiniad sy'n galluogi asiantaethau i ddefnyddio dull cyson wrth rannu gwybodaeth.

- c) Gosod safon gwasanaeth gofynnol er mwyn ymateb i oedolion mewn perygl a allai fod angen eu diogelu ac angen Gwasanaethau Cefnogi eraill o ganlyniad i Gam-drin Domestig.
- d) Cynnwys egwyddorion Llesiant fel y'u disgrifir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- e) Cefnogi fframwaith y canllawiau statudol; ymddygiad llywodraethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu berthynas deuluol (2015). Mae ymddygiad gorfodaethol yn weithred neu'n batrwm o weithredoedd o ymosod, bygythiadau, cywilyddio a chodi ofn neu gamdriniaeth arall sy'n cael ei defnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr. Mae ymddygiad llywodraethol yn ystod o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud person yn israddol a/neu yn ddibynnol, drwy ei ynysu o ffynonellau cymorth, manteisio ar ei adnoddau a'i alluoedd ar gyfer elw personol, ei amddifadu o'r dulliau sydd eu hangen ar gyfer annibyniaeth, ymwrthedd a dianc a rheoleiddio ei ymddygiad bob dydd.

### **Mae'r canllawiau ymarfer hyn yn cydnabod:**

- a) Y bydd yr holl asiantaethau bob amser yn ceisio gweithredu er lles gorau'r oedolion mewn perygl y maen nhw'n ymwneud â nhw.
- b) Mae pob asiantaeth wedi'i rhwymo gan ddyletswydd i ddiogelu cyfrinachedd deunydd a rennir. Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon. Rhaid i unrhyw benderfyniad i rannu gwybodaeth gyfrinachol fod â sail gyfreithiol, a rhaid iddo fod yn angenrheidiol a chymesur a bod modd ei gyfiawnhau mewn perthynas â Deddf Hawliau Dynol (1998) (Egwyddorion JAPAN - Cyfiawn, Awdurdodedig, Cymesur, Archwiladwy ac Angenrheidiol). Bydd yr Heddlu'n defnyddio'r acronym canlynol: PLAN - Cymesur, Cyfreithlon, Atebol ac Angenrheidiol.
- c) Bydd pob asiantaeth yn defnyddio deunydd a rennir dim ond at y dibenion y'i datgelwyd ac nid ar gyfer rhesymau eilaidd.
- d) Mae'n bwysig fod oedolion mewn perygl yn deall y cytundeb maen nhw'n ymrwymo iddo a'ch bod yn ailddarllen y cytundeb. Mae angen i chi esbonio'r rhesymau pam y gallai eu gwybodaeth gael ei rhannu a sut bydd y gwasanaeth yn trin y data sensitif a phersonol mae'n ei dderbyn. Dylid esbonio bod pob achos yn unigol ond, yn gyffredinol, nid oes angen i'r gwasanaeth gael caniatâd i rannu gwybodaeth os bydd yr oedolyn neu eu plant mewn perygl mawr o niwed difrifol.

## 4.0 EFFEITHIAU CAM-DRIN DOMESTIG AR OEDOLION SYDD AG ANGHENION GOFAL A CHYMORTH

Mae'n bwysig nodi y gallai oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth fod yn ddiodefwrwr Cam-drin Domestig eu hunain neu ei fod yn effeithio arnyn nhw gan ei fod yn digwydd yn eu cartref. Mae hyn yn debygol o gael effaith ddifrifol ar eu lles corfforol a meddyliol.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil â merched yn bennaf, a dengys y canfyddiadau sut mae bod ag anabledd yn effeithio'n fawr ar natur, maint ac effaith y gamdriniaeth. Mae'n fwyfwy perthnasol os mai'r partner camdriniol yw'r gofalwr hefyd a bod gan y gofalwr gryn bŵer a rheolaeth a bod y diodefwrwr yn dibynnu arnyn nhw.

Os bydd oedolion mewn perygl yn dioddef Cam-drin Domestig, efallai y bydd arnyn nhw angen cymorth ychwanegol i gynllunio'u dyfodol. Gall y cam-drin neu'r bygythiad o gam-drin barhau ar ôl i ddiodefwrwr wahanu oddi wrth y camdriniwr. Mae'n bwysig sicrhau bod gan bob oedolyn mewn perygl sydd yn y sefyllfa hon gefnogaeth briodol i'w galluogi nhw i gynnal eu diogelwch personol.

Er y cydnabyddir y gall gofalwyr deimlo dan bwysau ar brydiau, ni ddylid defnyddio hyn i gyfiawnhau trais neu gam-drin lle nodir bod pŵer neu reolaeth dros yr oedolyn. Os canfyddir achos o gam-drin domestig, dylid bob tro ystyried a oes gan y cyflawnwr hanes o drais neu gam-drin domestig cyn yr anabledd neu'r materion galluedd sy'n eu diffinio fel oedolyn ag anghenion gofal a chymorth. Dylid hefyd ystyried a yw'r anabledd neu'r mater galluedd yn cyfrannu at yr achosion o drais neu gam-drin domestig. Dylai hyn helpu gweithwyr i ymdrin ag anghenion oedolyn mewn perygl sydd mewn sefyllfa o drais neu gam-drin domestig.

**Gellir ymgynghori a gofyn am gyngor gan yr Uned Atgyfeirio Ganolog.**

## 5.0 CYFRIFOLDEBAU'R HEDDLU

Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth er mwyn sicrhau mai'r blaenoriaethau pwysicaf wrth ymdrin â phob achos o gam-drin domestig yw:

- a) Diogelu bywydau oedolion a phlant sydd mewn perygl o gam-drin domestig;
- b) Sicrhau mesurau diogelu a gwasanaeth cyfeirio at adnoddau cefnogi cenedlaethol a lleol ar gyfer diodefwrwr cam-drin domestig;
- c) Cofnodi holl achosion cam-drin domestig;
- d) Hwyluso camau gweithredu effeithiol yn erbyn troseddwr fel y gellir eu dal yn atebol drwy'r system cyfiawnder troseddol.
- e) Nid yw cam-drin domestig yn drosedd benodol. Defnyddir y term i ddisgrifio

amryw o ddigwyddiadau sy'n digwydd mewn amgylchiadau penodol lle gall y dioddefwyr fod o unrhyw rywedd ac o unrhyw grŵp ethnig, fel sy'n wir am y cyflawnwr. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymateb i holl ddioddefwyr camdrin domestig fel y gallant dderbyn gwasanaeth o ansawdd priodol yn dibynnu ar eu hanghenion unigol. Bydd pob honiad yn cael ei ymchwilio'n drylwyr a bydd y cyflawnwyr yn cael eu dal yn atebol drwy'r system cyfiawnder troseddol.

Ar ôl i achos o Gam-drin Domestig gael ei gofnodi, cyfrifoldeb yr Uned Atgyfeirio Ganolog yw canfod a yw'n ymddangos fel pe bai gan y dioddefwr anghenion gofal a chymorth a'i fod mewn perygl o Gam-drin Domestig. Bydd yr oedolion hynny y credir eu bod mewn perygl yn cael eu cyfeirio ar unwaith drwy'r Uned Atgyfeirio Ganolog.

Atgyfeirir y pryderon at yr Awdurdodau Lleol (Gweler 1.2) ym mhob achos lle:

- Credir bod oedolyn mewn perygl a/neu bod plant cysylltiedig yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol
- Credir bod oedolyn mewn perygl a/neu blant angen mwy o wasanaethau cefnogi

Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr angen i atgyfeirio, gellir gofyn am ymgynghoriad drwy Wasanaethau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol perthnasol.

### **Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig (DVPN) a Gorchmynion Diogelu Trais Domestig (DVPO).**

Gellir defnyddio'r rhain yn dilyn digwyddiad domestig i gynnig amddiffyniad tymor byr i'r dioddefwr pan nad oes unrhyw un wedi ei arestio ond bod angen gweithredu cadarnhaol, neu pan fo rhywun wedi ei arestio ond fod yr ymchwiliad ar y gweill. Efallai bod yma achos lle penderfynir rhoi rhybudd i'r cyflawnwr neu ni chymerir camau pellach, neu pan fydd yr unigolyn dan amheuaeth yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth heb amodau. Gallant hefyd gael eu hystyried pan fydd achos yn cael ei gyfeirio gan y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Lluniwyd y broses er mwyn rhoi amser i ddioddefwyr ddod atynt eu hunain drwy roi seibiant dros dro iddynt oddi wrth eu camdriniwr a'i gwneud yn bosibl i'w hatgyfeirio at wasanaethau cefnogi heb ymyrraeth. Yn aml iawn, y foment pan fydd dioddefwyr yn gofyn am gymorth neu'n gadael eu camdriniwr yw'r adeg pan fyddan nhw fwyaf mewn perygl. Gellir bwrw ymlaen â'r broses DVPN/DVPO heb gefnogaeth ymarferol y dioddefwr, neu hyd yn oed yn erbyn eu dymuniadau, os credir fod angen gwneud hynny er mwyn eu diogelu rhag trais neu'r bygythiad o drais. Nid oes raid i'r dioddefwr fynd i'r llys chwaith. Gall hyn helpu drwy dynnu cyfrifoldeb oddi ar y dioddefwr am weithredu yn erbyn eu camdriniwr.

Yn y lle cyntaf, gall yr Heddlu gyflwyno DVPN yna rhaid gwneud cais i'r llys am DVPO o fewn 48 awr. Os bydd y llys yn cyflwyno DVPO rhaid cael un am isafswm o 14 diwrnod ac uchafswm o 28 diwrnod.

Dylid rhoi gwybod i'r Heddlu os caiff DVPN ei dorri. Nid oes pŵer penodol i arestio ond gellir defnyddio pwerau eraill i gadw'r sawl sydd dan amheuaeth yn y ddalfa i



ymddangos o flaen y llys ynadon nesaf a fydd ar gael fel y gellir cyflwyno gorchymyn llawn. Rhoddir ystyriaeth os cyflawnir troseddau pellach a allai olygu y bydd yr unigolyn sydd dan amheuaeth yn cael ei arestio ac y bydd yn cael ei ymchwilio i'r troseddau eraill hyn hefyd.

Mae pŵer i arestio ynghlwm â DVPO os torrir yr amodau. Felly, os torrir yr amodau, dylid rhoi gwybod i'r heddlu sydd â'r pŵer i arestio a mynd â'r unigolyn sydd o dan amheuaeth o flaen llys ynadon. Mae torri DVPO yn golygu torri gorchymyn llys. Y gosb ar gyfer torri gorchymyn sifil yw £50 am bob diwrnod mae'r person yn torri'r gorchymyn, hyd at uchafswm o £5000 neu ddeufis yn y carchar. Rhoddir ystyriaeth os cyflawnir troseddau pellach a allai olygu y bydd yr unigolyn sydd dan amheuaeth yn cael ei arestio ac yn cael ei ymchwilio i'r troseddau eraill hyn hefyd.

Cynllun Datgelu Trais Domestig (*Clare's Law*). Nod y cynllun hwn yw rhoi ffordd ffurfiol i'r cyhoedd wneud ymholiadau am unigolyn maen nhw mewn perthynas ag ef/hi, neu sydd mewn perthynas â rhywun maen nhw'n ei adnabod, a bod pryder y gallai'r unigolyn hwnnw fod â hanes o gam-drin.

Os bydd gwiriadau'r heddlu'n dangos bod gan yr unigolyn hanes o droseddau camdriniol, neu os oes gwybodaeth arall sy'n dangos bod y person rydych chi'n ei adnabod mewn perygl, bydd yr heddlu'n ystyried rhannu'r wybodaeth hon gyda'r unigolyn/unigolion sydd yn y sefyllfa orau i ddiogelu'r dioddefwr posibl. Gall unrhyw drydydd parti sy'n pryderu wneud cais, er enghraifft rhiant, cymydog, ffrind neu weithiwr proffesiynol, nid y dioddefwr posibl yn unig.

Ni fyddai trydydd parti sy'n gwneud cais o reidrwydd yn derbyn y wybodaeth am yr unigolyn dan sylw. Efallai y byddai'n fwy priodol pe bai rhywun arall yn derbyn y wybodaeth, er enghraifft y dioddefwr posibl neu berson arall sydd mewn sefyllfa i ddiogelu'r dioddefwr posibl. Os bydd oedolyn mewn perygl yn agored i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yna dylid defnyddio proses arferol Gwiriadau'r Heddlu.

## **CANIATÂD A DIOGELU DATA**

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 yn diogelu preifatrwydd personol ac yn amddiffyn hawliau unigolion.

Mae Erthygl 5 y Rheoliad yn amlinellu saith prif egwyddor sydd wrth wraidd unrhyw drefn diogelu data gyffredinol:-

- a) dylid ei brosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw mewn perthynas ag unigolion ('cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder');
- b) dylid ei gasglu at ddibenion sydd wedi'u nodi, sy'n eglur ac sy'n ddilys ac nad yw'n cael ei brosesu mewn modd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny; nid yw prosesu pellach er mwyn archifo er budd y cyhoedd, at ddibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu at ddibenion ystadegol yn cael ei ystyried yn anghydnaws â'r dibenion gwreiddiol; ('cyfyngu ar ddibenion');

- c) dylai fod yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol mewn perthynas â'r dibenion y mae'n cael ei brosesu ar eu cyfer ('lleihau data');
- d) dylai fod yn gywir a, lle bo angen, yn cael ei gadw'n gyfredol; rhaid cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod data personol sy'n anghywir, gan ystyried at ba ddibenion mae'n cael ei brosesu, yn cael ei ddileu neu ei gywiro heb oedi ('cywirdeb');
- e) ei fod yn cael ei gadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am gyn lleied o amser ag sy'n angenrheidiol at y dibenion mae'r data'n cael ei brosesu ar eu cyfer; gall data personol gael ei storio am gyfnodau hwy cyhyd ag y bydd y data personol yn cael ei brosesu at ddibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol neu ddibenion ystadegol yn unig, yn amodol ar weithredu'r mesurau technegol a threfniadol priodol fel sy'n ofynnol dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol er mwyn diogelu hawliau a rhyddid unigolion (cyfyngu ar storio');
- f) dylid ei brosesu mewn modd sy'n sicrhau bod y data personol yn cael ei warchod yn ddigonol, gan gynnwys cael ei warchod rhag cael ei brosesu'n ddiawdurdod neu'n anghyfreithlon a rhag cael ei golli, ei ddifrodi neu ei ddinistrio ar ddamwain, gan ddefnyddio mesurau technegol neu drefniadol priodol ('uniondeb a chyfrinachedd'). Mae'r Ddeddf Diogelu Data 2018 yn diogelu preifatrwydd personol ac yn amddiffyn hawliau unigolion.

Mae Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn cynnwys chwe sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Mae'r seiliau cyfreithiol ar gyfer prosesu data wedi'u nodi yn Erthygl 6 y Rheoliad. Dyma'r rhai sy'n berthnasol i'r polisi hwn:

- a) Caniatâd: mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i chi brosesu ei ddata personol at ddiben penodol.
- b) Rhwymedigaeth gyfreithiol: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi gydymffurfio â'r gyfraith.
- c) Buddiannau allweddol i fywyd: mae'r prosesu'n angenrheidiol i ddiogelu bywyd rhywun.
- d) Tasg gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i chi berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich swyddogaethau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail gyfreithiol eglur.

Dylid gofyn am ganiatâd ym mhob achos os yw'n ddiogel i wneud hynny. Os na ellir cael caniatâd, gellir rhannu gwybodaeth heb ganiatâd, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018, os yw'r unigolyn yn blentyn neu'n oedolyn mewn perygl; os yw'r amgylchiadau'n ei gyfiawnhau, os yw er budd sylweddol i'r cyhoedd, a bod rhannu'n angenrheidiol at ddibenion:

- i. diogelu unigolyn rhag cael ei esgeuluso neu gael niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol; neu

- ii. ddiogelu lles corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn

Mae erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998 yn datgan bod hawl gan bawb i'w bywyd preifat a theuluol gael ei barchu, ac na ddylai Awdurdod Cyhoeddus ymyrryd â'r hawl honno oni wneir hynny er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith:-

- a) Er budd diogelwch cenedlaethol
- b) Diogelwch y cyhoedd
- c) Lles economaidd y wlad
- d) Atal anrhefn neu drosedd
- e) Diogelu iechyd neu foesau
- f) Diogelu hawliau neu ryddid pobl eraill.

Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid gofyn am ganiatâd gan yr oedolyn cyn y gwneir atgyfeiriad. Er hyn, ni ddylid gofyn am ganiatâd:-

- a) Os byddai'n amharu ar atal neu ganfod trosedd neu'r gallu i ddal troseddwr.
- b) Os byddai'n gosod testun yr atgyfeiriad neu oedolion eraill mewn perygl o newid.
- c) Os oes angen atgyfeiriad brys ac nid yw'n bosibl nac yn briodol i ofyn am ganiatâd, h.y. os mai'r unigolion sydd dan amheuaeth o gam-drin yw'r unig bobl a all roi caniatâd mewn achos.

Mae gan asiantaethau statudol gyfrifoldeb i weithredu er mwyn atal trosedd neu gam-drin tuag at blant ac oedolion mewn perygl.

Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon am les oedolyn a'i fod yn credu bod yr oedolyn hwnnw'n cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'n debygol o fod, yna dylen nhw rannu'r wybodaeth gyda'r awdurdod lleol a/neu yr heddlu os ydyn nhw'n credu neu'n amau bod trosedd wedi ei chyflawni.

Os bydd yr oedolyn mewn perygl yn gwrthod rhoi caniatâd i atgyfeiriad gael ei wneud a bod ganddyn nhw'r galluedd (yn ôl gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005) i ddeall y materion risg ar ôl cwblhau asesiad risg a gynhaliwyd yn ystod ymholiad diogel ac os credir nad oes unrhyw un yn codi ofn arny'n nhw, yna dylid parchu eu dymuniadau a chofnodi'r penderfyniad hwn.

Os oes, serch hynny, oedolion eraill ag anghenion gofal a chymorth neu blant mewn perygl yna dylid atgyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â'r bobl hyn.

Dengys gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lladdiadau domestig bod methu â rhannu gwybodaeth hanfodol yn ffactor sy'n cyfrannu mewn nifer o achosion ond er bod y

'neges' gyfredol yn datgan y dylai gweithwyr proffesiynol ystyried y peryglon posibl o beidio â rhannu gwybodaeth; yn strategol ac ar y rheng flaen, gyda gofal mawr y gwneir hynny hyd heddiw.

## 6.0 AWDURDODAU LLEOL

Ym mhob achos o Gam-drin Domestig, bydd awdurdodau lleol ac asiantaethau neu wasanaethau eraill, lle bynnag y bo'n bosibl, yn gweithio i gefnogi a chynorthwyo oedolion mewn perygl i gymryd y camau sydd eu hangen er mwyn diogelu eu hunain rhag cael eu cam-drin yn enwedig os byddai hynny'n arwain at niwed sylweddol i'w hunain neu i oedolion eraill ag anghenion gofal a chymorth a phlant.

Yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, mae'n gyfrifoldeb ar yr Arweinydd Diogelu Penodedig yn yr awdurdodau lleol i ddod i benderfyniad am y camau a gymerir. Byddai hyn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ôl cynnal asesiad risg ar ddifrifoldeb y cam-drin. Mae'r ymatebion canlynol yn ymatebion posibl y gellid eu cymryd ar unrhyw adeg yn ystod y broses casglu gwybodaeth neu ymholiadau a wnaed o'r ymgynghoriad cychwynnol / atgyfeiriad ffurfiol i'r gynhadledd achos:-

- a) Mae'n gam-drin, mae'r dioddefwr honedig yn oedolyn mewn perygl ac mae ymholiad adran 126 yn cael ei roi ar waith gan ddefnyddio Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
- b) Mae'n gam-drin ond mae'r oedolyn sydd mewn perygl, yn dilyn ymholiadau diogel, yn dymuno cau'r achos ac nid yw DASH yn dangos atgyfeiriad at MARAC.
- c) Ceir tystiolaeth o gam-drin nad yw'n cael ei ystyried yn drosedd ond ar ôl asesu'r materion yr adroddwyd yn eu cylch, mae'n ymddangos y byddai'n fwy addas i ymdrin â'r sefyllfa mewn ffordd llai ffurfiol e.e. drwy ddarparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer yr oedolyn mewn perygl a'i ofalwr (a allai hefyd fod yr oedolyn mewn perygl).
- d) Nid yw'n cael ei asesu'n gam-drin oedolion ond cychwynnir asesiad cymorth/gofal cymdeithasol.
- e) Mae'n gam-drin ond nid oes gan y dioddefwr anghenion Gofal a Chymorth felly gallai ymholiad anstatudol fod yn addas.
- f) Os nad oes gan y dioddefwr anghenion gofal na chymorth, efallai y bydd angen awgrymu atgyfeiriad at wasanaeth mwy priodol e.e. gwasanaethau cam-drin domestig a gomisiynir yn lleol.
- g) Daw asesiad a gwerthusiad cychwynnol o'r peryglon a gyflwynir a'r ffactorau diogelu i'r casgliad nad oes tystiolaeth o gam-drin neu ni chredir bod achos o gam-drin ar ôl gwneud ymholiadau.

Rhaid i asiantaeth y gwasanaethau cymdeithasol wneud pa ymholiadau bynnag sydd eu hangen, neu ofalu eu bod yn cael eu gwneud, er mwyn penderfynu beth ddylai ddigwydd a phwy ddylai fod yn gyfrifol am hynny. Yna mae hyn yn Ymholiad

Adran 126 ffurfiol; er mwyn helpu i gyrraedd y penderfyniad hwn, mae'n hanfodol fod ymholiadau o'r fath yn cael eu gwneud pan fydd hi'n ddiogel i'r person ddatgelu ac nad yw mewn sefyllfa a fydd yn cynyddu'r perygl iddyn nhw.

Gwneir yr ymholiadau canlynol:-

- a) Safbwyntiau a dymuniadau'r oedolyn ar ôl gwneud cyswllt ac ymholiad diogel.
- b) Esbonio i ba raddau y byddwch yn cadw cyfrinachedd e.e. yr unig dro y buaswn i'n dweud wrth rywun am unrhyw beth rydych chi wedi'i ddweud wrthyf i yw pe bai plentyn mewn perygl, pe bai oedolyn arall mewn perygl difrifol neu pe bai trosedd wedi ei chyflawni. Hyd yn oed wedyn, buaswn yn trafod y mater gyda chi'n gyntaf os gallwn i a buaswn yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i'ch cefnogi.
- c) Gall eiriolwr annibynnol gael ei benodi i'w cefnogi os ydyn nhw'n cael trafferth deall y prosesau.
- d) Casglu gwybodaeth gan sefydliadau eraill. \*Os nad yw'r oedolyn eisiau ymwneud ag asiantaethau eraill ond bod trosedd wedi ei datgelu, dylid ymgynghori â'r Heddlu ynghylch y sefyllfa (heb drosglwyddo manylion personol) i drafod ac ystyried sut i sicrhau bod y person yn cael, ac yn parhau i gael, ei ddiogelu rhag cael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
- e) Asiantaethau statudol i ystyried unrhyw gofnodion o ymwneud â'r oedolyn mewn perygl, nawr neu yn y gorffennol, ac unrhyw aelodau eraill o'r teulu.
- f) Dylid cwblhau Rhestr Wirio Nodi Risg o Gam-drin Domestig, Stelcian a Thrais ar Sail Anrhydedd gyda'r oedolyn onid yw'n amhosibl gwneud hynny.
- g) Atgyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) os nodir hynny gan DASH.
- h) Dylid hysbysu'r oedolyn am rôl Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig iddyn nhw ei ystyried.
- i) Dylid rhoi gwybod i'r oedolyn am eu Siop Un Alwad agosaf.
- j) Trafodaethau cynllunio dros y ffôn neu gyfarfodydd yn ymwneud â'r oedolyn mewn perygl a/neu'r atgyfeiriwr.
- k) Rhaid i bob trafodaeth a phenderfyniad cynllunio gael eu dogfennu'n briodol.

### **Mae canllawiau pellach ynghylch ymholiadau ar gael yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.**

Os bydd gweithwyr proffesiynol yn anghytuno â'i gilydd ynghylch y penderfyniad,

dylid cyfeirio'r mater at ganllawiau ymarfer Datrys Gwahaniaethau Proffesiynol Gogledd Cymru.

## Asesiad Risg DASH

Dylid hyfforddi'r holl staff sydd â chysylltiad uniongyrchol ag oedolion mewn perygl i gwblhau pecyn gwaith Dangosyddion Risg (DASH) os canfyddir bod oedolyn mewn perygl mewn sefyllfa o gam-drin domestig.

Mae'r offer DASH ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr cam-drin domestig, stelcian, ac aflonyddu a thrais ar sail anrhydedd.

Gellir canfod y pecyn asesu risg DASH yma: Rhestr Wirio Asesu Risg DASH 'Safe Lives'

Y categorïau risg a gydnabyddir ac a ddefnyddir gan Heddlu Gogledd Cymru yw safonol, canolig ac uchel:

Safonol	Nid yw'r dystiolaeth na'r dangosyddion risg presennol yn dangos y tebygrwydd yr achosir niwed difrifol h.y. nid oes cynnydd o ran difrifoldeb nac amllder.
Canolig	Gwelir dangosyddion amlwg bod perygl o niwed difrifol. Mae gan y troseddwr y potensial i achosi niwed difrifol ond mae'n annhebygol o wneud hynny oni bai bod yr amgylchiadau'n newid, er enghraifft peidio â chymryd meddyginiaeth, colli cartref, perthynas yn chwalu a chamddefnyddio cyffuriau neu alcohol.
Uchel	<p>Gwelir dangosyddion amlwg bod perygl o niwed difrifol. Gallai'r digwyddiad posibl ddigwydd ar unrhyw adeg a byddai'r effaith yn ddifrifol. Mae perygl o niwed difrifol yn risg sy'n bygwth bywyd a/neu yn drawmatig a gellir disgwyl y byddai adfer ohono, boed hynny'n gorfforol neu'n seicolegol, yn anodd neu'n amhosibl.</p> <p>Yn ogystal â hyn, dylai cynnydd sylweddol yn nifrifoldeb neu amllder digwyddiadau gael ei ystyried yn risg uchel. Gallai crebwyll proffesiynol y swyddog Heddlu sy'n adolygu'r achos hefyd nodi achosion risg uchel.</p>

Rhaid i bob dioddefwr, os ydyn nhw'n cael eu hasesu fel Uchel, Canolig neu Safonol dderbyn mesurau diogelu a chyngor cynllunio diogelwch. Dylid teilwra hyn i gyd-fynd ag anghenion unigol pwrpasol y dioddefwr.

Dylai staff gael hyfforddiant, at lefel sy'n dibynnu ar eu rôl a'u cyfrifoldebau, i gwblhau offer asesu risg DASH a deall y meini prawf ar gyfer atgyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol i oedolion enwebu cynrychiolwyr Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg fesul ardal awdurdod lleol. Dylai'r holl staff yn eu hardal wybod pwy yw eu cynrychiolwyr ar gyfer Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

### **Stelcian ac aflonyddu mewn achosion o gam-drin domestig**

Mae stelcian yn batrwm o ymddygiad digroeso a ailadroddir ac sy'n achosi tralod i ddiodefwyr neu sy'n codi ofn arnyn nhw. Gall gael ei gyflawni gan ddynion neu ferched. Mae'n thema sy'n cael ei haildrodd mewn llawer o laddiadau domestig ac mae'n ddangosydd risg uchel.

Mae stelcian yn aml yn cael effaith emosiynol enfawr ar y rhai mae'n effeithio arnyn nhw. Gall arwain at deimladau o iselder, gorbryder a hyd yn oed anhwylder straen wedi trawma. Mae'n drosedd seicolegol yn ogystal â throsedd gorfforol.

Gall stelcian fod yn uniongyrchol; drwy sefyllfaoedd o wrthdaro neu drwy ddilyn y diodefwr. Gellir ei wneud dros y ffôn, drwy'r post neu ar-lein hefyd. Gall fod yn anuniongyrchol; wedi'i hwyluso drwy drydydd partïon yn cynnwys teulu, pobl gysylltiedig a chysylltiadau gwaith.

Gall ymchwiliadau i achosion o gam-drin domestig gynnwys troseddau sy'n ymwneud ag aflonyddu ac i'r gwrthwyneb. Gall aflonyddu fod yn rhan uniongyrchol o'r cam-drin domestig neu gall ddigwydd o ganlyniad i weithredoedd pobl sydd â chysylltiad â'r camdriniwr.

Os bydd achos o stelcian, mae'n hanfodol ei fod yn cael ei nodi ac yr ymdrinnir ag ef yn briodol. Rhaid darparu ymateb diogelu estynedig ynghyd ag ymyrraeth brydlon, gadarn ac effeithiol gyda'r cyflawnwr.

Efallai y bydd yr Heddlu'n ystyried gosod amodau mechnïaeth llym os caniateir mechnïaeth. Dylai Ymchwilwyr yr Heddlu sicrhau bod erlynwyr Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn unrhyw achos i gyflwyno gorchymyn atal ar ôl collfarn neu ryddfarn yn y llys.

Dylid gofyn yr 11 cwestiwn ychwanegol o'r S-DASH ar gyfer achosion Stelcian ac Aflonyddu (2009) i ddiodefwyr stelcian ac aflonyddu mewn achos domestig. Dylid gwneud hyn er mwyn sicrhau y cynhelir asesiad risg cywir ac y ceir dealltwriaeth lawn o amgylchiadau'r diodefwr er mwyn diogelu ac ymyrryd mewn modd priodol.

Mae cyngor ar gael i bobl sydd wedi ymwneud ag ymddygiad o stelcian drwy gysylltu â'r Clinic Stelcian Cenedlaethol ar 020 8702 6104 neu drwy anfon e-bost at [NationalStalkingClinic@nhs.net](mailto:NationalStalkingClinic@nhs.net). Gellir cael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn a phwy a all wneud atgyfeiriadau ar y wefan hon: [Clinic Stelcian Cenedlaethol](#)

Gellir cael cyngor a chefnogaeth ar-lein i ddiodefwyr stelcian ar [ar-lein i ddiodefwyr stelcian](#) neu ar Linell Gymorth Genedlaethol Stelcian ar 0808 802 0300.



## **Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) Cam-drin Domestig**

Mae MARAC yn ymateb amlasiantaethol i sicrhau bod yr unigolion sydd â'r risg mwyaf o ddioddef cam-drin domestig yn cael eu diogelu o fewn cyd-destun amlasiantaethol.

Mewn un cyfarfod, mae MARAC yn cyfuno'r wybodaeth ddiweddaraf am risg gydag asesiad cynhwysfawr o anghenion y dioddefwr ac mae'n eu cysylltu'n uniongyrchol â darpariaeth gwasanaethau priodol ar gyfer pawb sy'n ymwneud â'r achos: y dioddefwr, y plant a'r cyflawnwr.

Amcanion MARAC yw:

- a) Rhannu gwybodaeth er mwyn gwella diogelwch, iechyd a lles dioddefwyr, oedolion a'u plant;
- b) Penderfynu a yw'r cyflawnwr yn peri risg sylweddol i unrhyw oedolyn penodol mewn perygl a/neu i'r gymuned yn gyffredinol; yn ogystal â staff proffesiynol sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
- c) Llunio a gweithredu cynllun rheoli risg ar y cyd sy'n cynnig cefnogaeth broffesiynol i bawb sydd mewn perygl ac sy'n lleihau'r perygl o niwed.
- d) Lleihau targedu dro ar ôl tro;
- e) Gwella atebolrwydd asiantaethau.
- f) Gwella diogelwch a chefnogaeth i staff sy'n ymwneud ag achosion cam-drin domestig risg uchel.

Cyfrifoldeb asiantaethau unigol yw cymryd camau gweithredu priodol; nid yw'n cael ei throsglwyddo i MARAC.

Rôl MARAC yw hwyluso, monitro a gwerthuso dulliau rhannu gwybodaeth yn effeithiol er mwyn ei gwneud yn bosibl i gymryd camau priodol i wella diogelwch y cyhoedd.



## Atodiad 1 - Manylion cyswllt ac atgyfeirio

**Os oes angen sylw/presenoldeb yr heddlu neu sylw meddygol ar frys,  
ffoniwch: 999**

**Ar gyfer ymholiadau'r heddlu, ffoniwch: 101**

**I roi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am bryderon ynghylch  
Oedolyn mewn Perygl, cysylltwch â'r awdurdod lleol perthnasol:**

### **Ynys Môn**

01248 750057

01248 353551 (Y tu allan i oriau swyddfa)

### **Gwynedd**

Adran Oedolion, Iechyd a Lles 01766 772577

01248 353551 (Y tu allan i oriau swyddfa)

### **Conwy**

0300 4561111 (Y tu allan i oriau swyddfa)

0300 1233079 (Y tu allan i oriau swyddfa)

### **Sir Ddinbych**

0300 4561000

0345 053 3116 (Y tu allan i oriau swyddfa)

### **Sir y Fflint**

03000 858858

0845 053 3116 (Y tu allan i oriau swyddfa)

### **Wrecsam**

01978 292066

0345 053 3116 (Y tu allan i oriau swyddfa)

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

[Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru](#)